Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Casmael
# Casmael
# Hwlffordd
# Sir Benfro
# SA62 5RL

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/04/2013**

## Cyd-destun

Mae’r ysgol wledig hon wedi ei lleoli ar gyrion pentref Casmael yng nghesail y Preseli yn Sir Benfro. Yn ôl yr ysgol, mae’r ardal yn un nad yw’n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae gan 6% o’r disgyblion hawl i dderbyn cinio di-dâl sydd yn sylweddol is na’r ffigwr sirol a chenedlaethol.

Mae 66 o ddisgyblion rhwng pedair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Mae’r niferoedd wedi aros yn sefydlog dros y tair blynedd diwethaf. Addysgir y disgyblion mewn tri dosbarth o oed cymysg gan dri athro amser llawn ac un athro rhan-amser. Mae gan 24% o’r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol sydd ychydig yn uwch na’r ffigwr cenedlaethol. Nid oes disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Cymraeg yw’r brif iaith yn y cartref i 20% o’r disgyblion. Nid oes disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae’r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Medi 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Casmael yn 2012-2013 yw £4,203. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Benfro yw £5,870 a'r lleiafswm yw £3,138. Mae Ysgol Casmael yn y nawfed safle o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod yr addysgu o safon dda yn yr holl ddosbarthiadau;
- bod safonau ymddygiad ac ymroddiad y disgyblion yn dda iawn;
- bod yr ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau cyfoethog sydd yn ysgogi'r dysgu; a
- bod yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar gydag ethos croesawgar.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth gadarn gyda ffocws pendant ar godi safonau a gwelliant parhaus;
- bod yr holl staff yn rhannu'r un gwerthoedd ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm;
- bod cyswllt amlwg rhwng y broses hunanarfarnu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol;
- bod tystiolaeth o gynllunio a gweithredu gwelliannau'n llwyddiannus; a
- bod y cydweithio agos gyda'r corff llywodraethol, rhieni a phartneriaid eraill yn dylanwadu'n adeiladol ar waith yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Cryfhau medrau llafar a darllen Cymraeg y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen

A2 Parhau i ymestyn y disgyblion i gyflawni'r lefelau uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2

A3 Sicrhau cysondeb pellach yn y marcio i gynorthwyo disgyblion i wella safon eu gwaith

A4 Cynllunio ac ehangu ymhellach y profiadau dysgu a drefnir yn ardal allanol y Cyfnod Sylfaen

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar draws yr ysgol, mae medrau gwrando'r disgyblion yn dda iawn. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae ychydig o ddisgyblion yn cyfathrebu'n rhydd ar lafar yn y Gymraeg wrth drafod eu gwaith ac yn anffurfiol mewn sefyllfaoedd amrywiol. Mae'r mwyafrif yn ddihyder ac yn brin o ystod o eirfa i'w cynorthwyo i drafod ac i ymateb i gwestiynau yn llawn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn barod iawn i gynnig atebion a rhannu syniadau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen testunau syml ar lefel sydd yn briodol i'w hoed a'u gallu. Nid yw lleiafrif y disgyblion yn darllen gyda digon o ruglder a dealltwriaeth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ystyrlon gan ddefnyddio mynegiant priodol wrth ddarllen ar goedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r mwyafrif yn trafod cynnwys eu llyfrau yn ddeallus ac yn medru cynnig ymatebion personol i'r hyn a ddarllenant.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol gan ddechrau amrywio eu brawddegau a defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddangos gafael sicr ar wahanol ffurfiau o ysgrifennu. Mae eu medrau atalnodi a sillafu'n datblygu'n briodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu yn effeithiol mewn pynciau eraill. Er hyn, mae'r enghreifftiau o waith estynedig yn fwy anwastad ar draws y pynciau.

Ar draws yr ysgol, ond yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl a'u medrau ymchwilio yn bwrpasol yn eu gwaith ar draws y pynciau. Mae'r holl ddisgyblion yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn ymateb yn frwdfrydig i'r tasgau a gyflwynir iddynt.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau.

Rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o ddisgyblion mewn blwyddyn a'r canran uchel o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn 2012, mae canran y disgyblion saith mlwydd oed a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5 neu well, ar draws y meysydd dysgu ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg. O gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran y canran o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r canlyniadau yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf ym mhob maes.

Tros gyfnod o bedair blynedd, mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn debyg neu yn uwch na'r teulu o ysgolion tebyg. Mae'r canlyniadau mewn pynciau unigol yn fwy anwastad. O gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran canran y disgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, mae perfformiad yr ysgol yn ei gosod ymhlith y 25% uchaf yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

Yn 2012, mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni deilliant 6 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn anwastad ond yn gyffredinol is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion.

O ystyried natur y grwpiau, nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched er bod bechgyn yn cyflawni'n well ar y cyfan.

**Lles: Da**

Mae gan bron pob plentyn ymwybyddiaeth dda o'r angen i fwyta bwyd iach ac i gadw'n heini. Maent yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymfalchïo yn eu hysgol.

Mae'r holl ddisgyblion yn gwrtais ac ystyriol, yn ymddwyn yn dda iawn ac yn parchu ei gilydd ac oedolion. Maent yn ymroi yn frwdfrydig i'w tasgau ac yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig.

Mae presenoldeb disgyblion dros y tair blynedd diwethaf yn amrywio rhwng y 50% isaf a'r 25% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae lefelau presenoldeb wedi codi'n gyson ers 2009 i dros 95% sydd yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac yn cydweithio'n effeithiol. Maent yn cyfrannu at fywyd yr ysgol wrth gymryd rôl flaenllaw mewn amryw weithgaredd, casglu syniadau'r disgyblion a cheisio ymateb. Maent yn cyflwyno adroddiad manwl o'u gwaith i'r llywodraethwyr yn rheolaidd sydd yn datblygu eu hyder i gyfrannu at benderfyniadau am weithgareddau'r ysgol.

Mae'r holl ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol a phersonol da trwy eu gweithgareddau dyddiol a thrwy gymryd rhan mewn cyngherddau a digwyddiadau cymunedol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau diddorol sydd yn diwallu anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r gweithgareddau yn cwrdd â gofynion statudol y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Defnyddir themâu yn effeithiol i ddatblygu nifer o'r medrau ac i gyflwyno agweddau o'r cwricwlwm. Mae ymweliadau addysgol ac ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion ac yn hyrwyddo eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae cynllunio manwl yn sicrhau bod disgyblion yn caffael medrau meddwl, cyfathrebu, rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu sydd yn caniatáu iddynt i fanteisio ar gwricwlwm eang. Mae'r pwyslais ar ddatblygu medrau llythrennedd Cymraeg y disgyblion ar draws yr ysgol yn dylanwadu'n gynyddol ar safonau. Yn y Cyfnod Sylfaen, fodd bynnag, mae agweddau ar y drefniadaeth i hybu medrau llafar a darllen y disgyblion yn fwy anwastad.

Mae'r dimensiwn Cymreig wedi ei integreiddio'n llwyddiannus i agweddau ar y cwricwlwm ac yn datblygu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hardal a Chymru yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth gyfoethog i ymestyn gwybodaeth y disgyblion o waith artistiaid o Gymru yn dyfnhau eu dealltwriaeth o agweddau ar hanes, llenyddiaeth a chelfyddyd eu gwlad. Mae oriel gelf yr ysgol yn ganolbwynt i weithgareddau diwylliannol yr ysgol a'r pentref.

Mae darpariaeth briodol ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a phwysigrwydd gofalu am yr amgylchfyd. Hyrwyddir eu dealltwriaeth o faterion dinasyddiaeth fyd-eang yn gynyddol trwy'r cwricwlwm a thrwy'r cysylltiadau sydd yn datblygu gydag ysgolion mewn gwledydd eraill.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol gadarn a gwnânt ddefnydd medrus o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau pwrpasol sydd yn sicrhau ymrwymiad gweithredol y disgyblion yn eu dysgu. Caiff y tasgau eu cynllunio'n briodol i gwrdd ag anghenion dysgu cyfredol y disgyblion. Mae'r tasgau heriol a ddarperir mewn pynciau megis mathemateg a hanes yng nghyfnod allweddol 2 yn cynnig trefniant effeithiol i ymestyn y disgyblion mwy abl ymhellach ar draws yr ysgol.

Mae'r berthynas waith gynnes sydd rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn hybu rhyngweithio pwrpasol ac yn rhoi hyder i'r disgyblion i weithio'n annibynnol. Defnyddir staff cymorth yn gynhyrchiol o fewn y dosbarthiadau ac mewn ystod o weithgareddau eraill ar draws yr ysgol.

Mae gweithdrefnau asesu priodol ar waith gan gynnwys system tracio cynnydd disgyblion trwy'r ysgol. Gwneir defnydd addas o'r data a gynhyrchir i fonitro cynnydd y disgyblion ac i ddarparu rhaglenni addysgol ychwanegol yn ôl yr angen.

Mae ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi ei sefydlu ar draws yr ysgol ac yn cynnig cyfleoedd da i'r disgyblion asesu eu gwaith a gwaith eu cyfoedion. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at greu dysgwyr mwy annibynnol.

Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd. Cynigir sylwadau adeiladol ond nid ydynt bob amser yn cynorthwyo disgyblion i wybod sut i wella safon eu gwaith. Mae adroddiadau ar gyfer rhieni yn darparu gwybodaeth fanwl am gyflawniadau a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar a threfnus lle teimla pawb y cânt eu gwerthfawrogi. Caiff manteision byw yn iach eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cael ei chynllunio'n ofalus a'i chynnwys ar draws y cwricwlwm. Mae’r sesiynau cyd-addoli yn cyfrannu’n adeiladol i’r meysydd hyn.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu ac nid ydynt yn destun pryder. Mae arweiniad clir i bob aelod o staff ac maent yn ymwybodol o’r gofynion.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hadnabod yn gynnar a darperir rhaglenni ymyrraeth priodol i’r rhai sydd angen cefnogaeth benodol. Mae’r cynlluniau addysg unigol yn gosod targedau cyraeddadwy ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y disgyblion. Cânt eu harfarnu a’u diweddaru mewn ymgynghoriad â’r disgyblion a’r rhieni. Mae gan yr ysgol bartneriaethau cadarnhaol gydag asiantaethau allanol arbenigol, megis swyddogion cymorth dysgu, sydd yn sicrhau cefnogaeth effeithiol i'r disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a chroesawgar gydag awyrgylch cynnes ymhlith y staff a’r disgyblion. Mae’r ethos cynhwysol yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Mae’r cwricwlwm yn hygyrch i bob disgybl ac mae gweithdrefnau priodol yn sicrhau ymddygiad da iawn ar draws yr ysgol.

Mae safon yr amgylchedd ffisegol yn dda. Mae’r adeilad yn darparu digon o le a chyfleusterau pwrpasol sydd yn cael eu defnyddio’n llawn i gefnogi dysgu’r disgyblion. Mae’r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau ac ar draws yr ysgol yn creu amgylchedd lliwgar a diddorol. Caiff yr adeiladau a’r safle eu cynnal a’u cadw’n dda.

Mae'r adnoddau o ansawdd da ac wedi eu cydweddu'n effeithiol i anghenion y disgyblion. Cânt eu defnyddio’n bwrpasol i hybu’r dysgu.

Mae’r ysgol ar safle braf a defnyddir yr ardaloedd allanol ar gyfer ystod o weithgareddau. Nid oes defnydd llawn o ardal allanol y Cyfnod Sylfaen i ymestyn profiadau dysgu a chwarae’r disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel. Mae’n llwyddo i gyfleu’r weledigaeth honno i’r staff, disgyblion, rhieni a’r llywodraethwyr. Mae’r ysgol yn gymuned drefnus gyda’r holl staff yn gweithio’n

effeithiol fel tîm. Mae ymdeimlad cryf iawn o bwrpas cyffredin lle mae'r disgyblion yn ganolog i'r holl benderfyniadau a wneir.

Mae'r strategaethau a gyflwynwyd o ran cynllunio a datblygu'r cwricwlwm yn symud yr ysgol yn ei blaen. Maent yn cynnwys ffocws cadarn ar hybu medrau dysgu'r disgyblion mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'r pennaeth i weithredu cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r aelodau yn trafod data'n gyson ac yn deall unrhyw dueddiadau mewn perfformiad. Mae'r ymweliadau â'r ysgol, arsylwadau gwersi a'r adroddiadau a dderbynnir am agweddau ar y ddarpariaeth yn eu galluogi i weithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol.

Rhoddir sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae medrau llythrennedd a rhifedd wedi cael eu targedu ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a safonau'r disgyblion. Mae asesu ar gyfer dysgu wedi ei wreiddio'n llwyr o fewn gwersi ac yn cyfrannu'n effeithiol at godi safonau.

**Gwella ansawdd: Da**

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o amrediad o ffynonellau i arfarnu ei pherfformiad gan ystyried safbwyntiau disgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr a'r awdurdod lleol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn darparu darlun clir o gryfderau'r ysgol a'r ardaloedd sydd angen eu datblygu.

Mae ystod o weithgareddau monitro effeithiol ar waith ac maent yn cynnwys dadansoddiad trylwyr o ddata perfformiad, monitro'r ddarpariaeth addysgol ac adolygu gwahanol agweddau o'r meysydd dysgu. Caiff y wybodaeth a gesglir o hunanarfarnu ei defnyddio'n effeithiol i ddatblygu a blaenoriaethu cynlluniau gwella.

Mae'r ysgol wedi sefydlu rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill. Mae'r cyfleoedd i gyd-gynllunio a rhannu arfer dda yn cyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae'r staff yn elwa o'r cyfleoedd i gyfrannu at ddatblygiadau cwricwlaidd yn lleol megis hyrwyddo gwerthoedd personol plant.

Mae cymunedau dysgu proffesiynol wedi'u sefydlu yn yr ysgol ac yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu agweddau megis medrau ysgrifennu disgyblion a'u medrau datrys problemau. Mae effaith y gwaith i'w gweld yn y datblygiad yn ysgrifennu'r disgyblion a'u medrau mathemateg pen.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae'r partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn cyfrannu'n gadarnhaol at wireddu nodau'r ysgol. Ceir cysylltiadau buddiol gyda busnesau lleol a sefydliadau addysg uwch.

Mae partneriaeth gref gyda'r gymuned leol. Mae disgyblion yn ymweld â gwahanol fannau o fewn y pentref yn rheolaidd ac yn croesawu unigolion o'r gymuned i gyfrannu at eu gwaith thema. Mae'r cysylltiadau hyn yn cyfoethogi eu profiadau

dysgu a’u hymwybyddiaeth o’u cynefin. Fel ysgol gymunedol, caiff ei chyfleusterau eu defnyddio’n llawn gan grwpiau a mudiadau lleol. Gwneir defnydd adeiladol o gymorth unigolion o’r gymuned i hybu medrau darllen y disgyblion ac i gynorthwyo gydag ystod o weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gydag ysgolion eraill y clwstwr er mwyn ehangu profiadau dysgu'r disgyblion ac i rannu arfer dda. Mae gweithgareddau pontio wedi eu sefydlu'n effeithiol gyda’r ysgolion uwchradd ac yn mynd i'r afael â'r cwricwlwm a lles y disgyblion. Mae gweithdrefnau cymedroli a safoni gwaith disgyblion yn eu lle. Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos gyda’r cylch meithrin sydd ar y safle ac mae hyn yn sicrhau bod plant yn trosglwyddo’n esmwyth i’r ysgol. Gwna'r ysgol ddefnydd priodol o wasanaethau'r awdurdod lleol er mwyn codi safonau ymhellach.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli'n effeithiol. Mae digon o athrawon cymwysedig a staff cynnal profiadol i addysgu’r cwricwlwm. Gwnânt ddefnydd adeiladol o’u hamser cynllunio, paratoi ac asesu i ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion. Mae trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff, sydd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Caiff yr ystod adnoddau a chyfleusterau eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi'r dysgu. Mae cynllun addas i ddatblygu ardal allanol y Cyfnod Sylfaen drwy greu ardaloedd gweithgareddau penodol gydag offer ychwanegol.

Mae’r pennaeth a phwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn cynllunio gwariant yr ysgol yn ofalus. Mae cyswllt cryf rhwng blaenoriaethau’r ysgol a phenderfyniadau gwariant. Gwneir ymdrechion llwyddiannus i ennill grantiau i ychwanegu at y cyflenwad adnoddau, megis adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sydd yn ymestyn medrau dysgu’r disgyblion. Mae prosesau monitro’r gyllideb yn rhoi ystyriaeth berthnasol i’r adroddiadau cyllidol cyson a ddarperir gan wasanaeth addysg yr awdurdod lleol.

O ystyried deilliannau disgyblion a’r defnydd a wneir o’r cyllid, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o ddisgyblion mewn blwyddyn a'r canran uchel o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn 2012, mae canran y disgyblion saith mlwydd oed a gyflawnodd Ddangosydd y Cyfnod Sylfaen (canran y disgyblion sy'n cyflawni deilliant 5 neu uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth mewn cyfuniad) ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim yng Nghymru, mae'r canlyniadau ym mhob maes dysgu yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant uwch, sef deilliant 6, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn is na'r teulu o ysgolion mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, yn gymharus o ran datblygiad mathemategol ac yn uwch na'r teulu mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Tros gyfnod o bedair blynedd, mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn debyg neu yn uwch na'r teulu o ysgolion tebyg. Mae'r canlyniadau mewn pynciau unigol yn fwy anwastad. Mae canlyniadau 2012 yn debyg neu yn uwch na chanlyniadau'r teulu o ysgolion mewn Cymraeg a Saesneg ond maent yn is mewn mathemateg a gwyddoniaeth. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim yng Nghymru, mae perfformiad yr ysgol yn ei gosod ymhlith y 25% uchaf yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae'r canran sydd yn cyflawni'r lefelau uwch yn anwastad ac yn gyffredinol is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim yng Nghymru, mae perfformiad yr ysgol yn ei gosod ymhlith y 25% uchaf yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Mae'r canlyniadau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf. Mae'r canlyniadau yn y Gymraeg yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

Oherwydd yr amrywiaethau yn nifer y bechgyn a merched o fewn y grwpiau, nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched er bod bechgyn yn cyflawni'n well ar y cyfan. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau. Oherwydd niferoedd bychan iawn, nid oes modd cymharu cyflawniad disgyblion sydd yn hawlio cinio am ddim a'r rhai heb yr hawl.

Tros gyfnod o bedair blynedd, mae cyflawniad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yn anwastad o gymharu â chyfartaleddau'r teulu o ysgolion.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhawyd 16 o holiaduron gan y rhieni. Mae bron pob un yn fodlon â'r ysgol. Mae pawb yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn setlo'n dda ac yn teimlo'n ddiogel yno. Dywedant fod ymddygiad y disgyblion yn dda. Maent o'r farn fod yr addysgu yn dda ac mae bron pob un yn dweud bod eu plant yn cael eu parchu, yn cael eu trin yn deg ac yn gwneud cynnydd priodol. Dywedant fod yr athrawon yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a bod yr ysgol yn darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion ag unrhyw anghenion unigol penodol. Mae bron pob un yn teimlo bod y gwaith cartref sydd yn cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae pawb o'r farn fod yr ysgol yn paratoi eu plant ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Teimlant fod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Dywedant fod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau. Mae llawer o'r farn eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Mae pawb yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â thrafod unrhyw beth gyda'r ysgol. Mae bron pob un o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae'r ymatebion yn dangos lefel uchel o fodlonrwydd ymhlith rhieni sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd 33 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Mae pawb yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn delio â bwlio yn dda. Mae bron pob disgybl yn nodi eu bod yn cael eu haddysgu i fod yn iach a bod llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae pawb o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae pawb yn dweud eu bod yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn gofidio am rywbeth. Maent o'r farn bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol a bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer i wneud eu gwaith. Mae pawb o'r farn bod disgyblion yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac yn ystod yr egwyl ginio. Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi.

Mae'r ymatebion yn cynnig darlun cadarnhaol sydd yn cymharu'n dda gyda'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Enir Morgan | Arolygydd Tîm |
| Veronica Williams | Arolygydd Lleyg |
| Richard Martin Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Amanda Lawrence | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.